CYNGOR CHWARAEON YSGOL A LLYSGENHADON IFANC /SCHOOL SPORTS COUNCIL AND YOUNG AMBASSADORS WEFAN YSGOL DYFFRYN CONWY

Mae'r Cyngor Chwaraeon Ysgol yn rhan ganolog o'r adran Addysg Gorfforol yn Ysgol Dyffryn Conwy.

SUT YDYM YN DEWIS AELODAU O'R CYNGOR YSGOL?

Etholir cynrychiolwyr i'r Cyngor Chwaraeon Ysgol drwy drefn fforymau dosbarth a fforymau blwyddyn yn flynyddol ym mis Medi. Etholir o leiaf dau gynrychiolydd o bob blwyddyn i gynrychioli'r flwyddyn ar y Cyngor. Cadeirydd ac Is-gadeirydd y cyngor chwaraeon yw, fel arfer, aelodau'r chweched dosbarth sydd a phrofiad o fod yn aelod o'r cyngor/llysgenhadon ifanc.

SUT YDYM YN DEWIS LLYSGENHADON IFANC?

Pob blwyddyn bydd y cyngor chwaraeon yn hysbysebu am Llysgenhadon Ifanc er mwyn rhoi cyfle i bawb. Bydd yr Adran Addysg Gorfforol a'r Cadeirydd ac Is-gadeirydd wedyn yn penodi llysgenhadon Ifanc i gynorthwyo'r cyngor chwaraeon.

BETH YW ROL Y LLYSGENHADON IFANC?

Mae'r rôl yma yn bwysig er mwyn helpu cynnal y nifer helaeth o weithgareddau yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd. Mae gwirfoddoli fel llysgenhad ifanc yn cynnwys gasglu data (trwy cwblhau cofrestr, creu holiaduron), trefnu ac arwain gweithgareddau, annog mwy o ddisgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol.

PRYD RYDYM YN CYFARFOD?

Cynhelir Cyfarfodydd y Cyngor Chwaraeon o leiaf unwaith bob hanner tymor gyda
Fforymau yn fwy aml. Mae'r Cyngor a'r Fforymau yn allweddol o fywyd yr ysgol fel rhan o wrando ar ddisgyblion a'u rôl allweddol wrth gynllunio ein amserlen allgyrsiol, trefnu gweithgareddau a hybu'r hyn yr ydym yn ei wneud.

BETH YW PWRPAS Y CYNGOR YSGOL?

Rydym yn rhoi llais i ddisgyblion o ran y gweithgareddau allgyrsiol yr ydym yn cynnal.
Mae'r cyngor chwaraeon ysgol yn trefnu gweithgareddau, mynegi eu barn am drefniadau'r ysgol a datblygiadau yn y maes chwaraeon ysgol.
Mae'r cyngor chwaraeon hefyd yn defnyddio a dehongli data o holiaduron e.e 'Holiadur ar Chwaraeon Ysgol er mwyn cynllunio blaenoriaethau a thrafod syniadau newydd er mwyn cael mwy o ddisgyblion wedi gwirioni â chwaraeon.

BETH YW BLAENORIAETHAU'R CYNGOR CHWARAEON YSGOL A LLYSGENHADON IFANC?

Annog a chymell mwy o ferched a bechgyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol
Cynyddu cyfleoedd i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau tu mewn a thu allan o'r amgylchedd ysgol
Gwneud Addysg Gorfforol a Chwaraeon yn hwyl i bawb.